# SUT MAE GWNEUD BYSEDD PYSGOD?

gyrfaoedd BLASUS mewn bwyd a diod CYMRU

...Nid yw'n broses mor syml ag y byddech yn ei feddwl...

Mae **CYCHOD PYSGOTA** a'r **CRIW** yn hwylio'r môr ac yn dal nifer o wahanol fathau o bysgod a physgod cregyn yn unol â chwotâu a chanllawiau llym. Unwaith byddant yn dod â'r pysgod i'r lan, bydd **PRYNWYR** o gwmnïau mawr, archfarchnadoedd, **GWERTHWYR PYSGOD** a bwytai yn asesu ansawdd a ffresni'r pysgod, corgimychiaid, cregyn bylchog, cimychiaid a chrancod. Mae **TECHNEGWYR OERI** gyda **GWEITHWYR WARWS** ac **ARBENIGWYR LOGISTEG** yn sicrhau bod y bwyd môr yn cael ei ddosbarthu'n sydyn ac yn cael ei gludo i'r cam nesaf yn y gadwyn brosesu er mwyn sicrhau'r ffresni gorau posibl. Yn yr archfarchnad a'r **GWERTHWYR PYSGOD** annibynnol, mae'r **GWEITHWYR PROSESU** yn glanhau ac yn paratoi popeth yn barod i'w werthu fel cynnyrch amrwd, ac mae **TIMAU DATBLYGU CYNNYRCH NEWYDD** yn datblygu prydau newydd a chyffrous yn barod i'w coginio er mwyn i'r adran **GWERTHU A MARCHNATA** ddatblygu mwy o becynnau creadigol ac ymgyrchoedd marchnata ar gyfer y cwsmer. Ar yr un pryd, mae penfras newydd ei ffiledu wedi cael ei archwilio o ran ansawdd gan **REOLWR SICRHAU ANSAWDD** cyn cael ei wneud yn fysedd pysgod, a'u cludo i'ch archfarchnad leol.

## A CHITHAU'N MEDDWL MAI DIM OND TAITH I'R SIOP SGLODION OEDD EI ANGEN!

Er mwyn darganfod mwy am y math o gyfleoedd gyrfa sydd ar gael yn y Diwydiant Gweithgynhyrchu Bwyd a Diod, ewch i:

**TASTYCAREERSWALES.ORG.UK**

Dilynwch ni ar: